# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 26ain o Fehefin 2023 am 6:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Geraint Evans, Richard Jones Evans

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Arwel Pierce

2. Datgan diddordeb: Ni fu unrhyw Gynghorydd ddatgan buddiant

3. Heddlu Gogledd Cymru - codi materion o bryder gyda swyddogion yr heddlu:

Ymunodd y Cyng. Richard Jones-Evans y cyfarfod am 6.23pm

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i swyddogion yr Heddlu. Yr oeddynt wedi teithio i Fryncrug er mwyn ymuno yn y cyfarfod rhithiol o swyddfa'r Cyng. Bethan Lawton.

Nodwyd y materion canlynol:
-Ceir yn goryrru o bob cyfeiriad ac y byddai lleihau'r cyflymder i 20mya o gyfeiriad Llanegryn o fudd ond ar y llaw arall nid oedd y terfyn cyflymder yn cael ei leihau ar y ffordd o gyfeiriad Tal-y-llyn
-Adroddodd y swyddogion y byddent yn ymweld â'r pentref yr wythnos ganlynol gyda gwn radar er mwyn medru cyflymder modurwyr
-Nid oedd y fan GoBwyll yn medru dod lawr i'r pentref ac 'roedd y fan yn medru anfon llythyrau gorfodadwy ar fodurwyr. Nid oedd y sefyllfa'r un peth gyda'r gwn radar, llythyrau hysbysu yn unig oedd yn cael eu hanfon allan
-fandaliaeth anfwriadol yng nghae chwarae Maes Hyfryd, sef bod ffens wedi ei falu
-Y clwb ieuenctid wedi bod mewn cyswllt gyda'r heddlu ar ddechrau'r flwyddyn
-Materion parcio yn gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd a Chyngor Gwynedd sydd yn rhoi dirwyon
-Pe byddai ceir heb dreth neu yswiriant, dylid hysbysu'r DVLA
-Pe byddai car yn cael ei adael am byth – bydd modd trefnu ei gasglu
-Mae'r Heddlu yn ymateb i geir sydd wedi eu parcio mewn ffordd sydd yn creu rhwystr i ddefnyddwyr eraill
-Cafwyd trafodaeth bod nifer o geir yn parcio ar y palmant ar brydiau pan bod digwyddiad yn Nhafarn y Peniarth a'r maes parcio yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pabell a bod y dafarn ar agor yn hwyr ee tan 1.30 y bore
-Cafwyd wybod bod swyddogion yr Heddlu wedi ymweld â'r Dafarn gyda'r swyddog trwyddedu, a bod trwydded cerddoriaeth tan 11 yr hwyr
-Adroddwyd bod angen i unrhyw gwynion am sŵn fynd at uned iechyd yr amgylchedd yng Nghyngor Gwynedd
-Trafodwyd gyrwyr ifanc yn goryrru drwy'r pentref yn ystod oriau man y bore - cafwyd wybod bod rhaid i'r heddlu weld y gyrwyr yn gyrru'n beryglus er mwyn medru rhoi S59 - sydd yn golygu dirwy i berson neu gerbyd. Pe byddai dau mewn deufis mae modd cymryd y car
-Gofynnwyd i swyddogion yr heddlu i gynyddu eu presenoldeb yn y pentref drwy gerdded o gwmpas y pentref ac awgrymwyd y dylid mynychu rhai o foreau coffi yn y Ganolfan
-Cafwyd wybod y byddai mwy o adnoddau yn yr ardal o fis Medi ymlaen gan y byddai dau PCSO yn cychwyn ac yn gwasanaethu ardal Tywyn
-Gofynnwyd am ffigurau troseddu yn y pentref a chafwyd wybod bod y ffigurau/data ar gael gan y rhingyll a'r arolygydd
-Dywedwyd bod yr heddlu angen gwybodaeth gan y cyhoedd am gyffuriau er mwyn eu helpu, dim ond gyda thystiolaeth yr oedd modd iddynt gynnal cyrchoedd i dai delwyr cyffuriau
-Adroddwyd mai defnyddio webchat oedd y dull mwyaf effeithiol o gysylltu gyda'r heddlu ac y dylid defnyddio 101 pan nad oedd y mater yn un brys
-Pe byddai unigolyn yn gweld rhywun yn gyrru dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, dylid cymerid nodyn o rif cofrestru'r cerbyd a gadael i'r heddlu wybod ar frys - byddai galwad o'r fath yn cael ei flaenoriaethu a cherbyd yn gyrru gyda goleuadau glas

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 6:40pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................